

Panel Ymgynghorol - Adolygiad o Flwyddyn 2020-2021

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Ymgynghorol (y Panel) yn ystod 2020-2021. Fel gyda'r adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu a gwblhawyd yn ystod mis Mawrth 2021.

2. Rôl y Panel Ymgynghorol

- 2.1 Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth iddo arwain swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a'i llywodraethu'n dda. Mae profiad amrywiol aelodau'r Panel yn rhoi persbectif allanol gwrthrychol i'r Ombwdsmon (sy'n gorfforaeth undyn) a chyngor iddo ar ddatblygu polisi ac ymarfer, cyfeiriad strategol a'r broses o graffu ar berfformiad OGCC.
- 2.2 Ym mis Medi 2020, aeth y Panel ati i adolygu a chytuno ar Gylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol, sydd wedi'i atodi yn Atodiad A.

3. Aelodaeth

- 3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ombwdsmon ac o leiaf bedwar a hyd at wyth aelod allanol annibynnol sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol yn cynnwys profiad o'r sectorau gwasanaeth cyhoeddus a gwahanol awdurdodaeth o safbwynt tiriogaethol a sectoraidd.
- 3.2 Mae'r Ombwdsmon yn mynychu cyfarfodydd y Panel ac mae'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel.
- 3.3 Cynhaliwyd ymarfer recriwtio ym mis Mehefin 2020 i benodi aelodau ychwanegol i'r Panel er mwyn ystyried cyfnodau rhai aelodau yn eu swydd sy'n dod i ben yn 2021. Er mwyn sicrhau trefniadau pontio da a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r Panel, ymunodd dau o'r aelodau newydd â'r Panel cyn i gyfnodau aelodau eraill yn eu swydd ddod i ben yn nes ymlaen yn 2021. Felly, mae aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn wedi bod fel a ganlyn:

- Mrs Anne Jones (cyn Gomisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol) (Cadeirydd)
- Mr Jim Martin (cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban)
- Dr Tom Frawley CBE (cyn Ombwdsmon y Cynulliad a Chomisiynydd Cwynion Gogledd Iwerddon)
- Mr Trevor Coxon (cyn Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Mr Ian Williams (cyn Brif Weithredwr Grŵp Hendre Limited)
- Dr Jane Martin CBE (cyn Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol Lloegr ac aelod o'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus)
- Mr Mike Usher (cyn Gyfarwyddwr Archwilio Cymru)

- Ms Rhiannon Ivens (cyn Brif Arolygydd yr Heddlu)

3.4 Ymddiswyddodd Rhiannon Ivens o'i swydd ym mis Mawrth 2021 o ganlyniad i wrthdaro rhwng buddiannau a oedd yn codi o benodiad arall.

4. Cyfarfodydd

4.1 Mae Aelodau'r Panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rôl, gyda phob un ohonynt yn cadw at lefel ragorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd yr holl gyfarfodydd eu cynnal ar-lein yn 2020-2021 oherwydd pandemig parhaus y Coronafeirws. Yn dilyn adolygiad y Tîm Rheoli o ddyddiadau cyfarfodydd ym mis Awst 2020, cytunwyd y dylid aildrefnu cyfarfodydd y Panel er mwyn darparu adroddiadau mwy amserol ac osgoi gwrthdaro â gwyliau cyhoeddus/diwedd y flwyddyn. Felly, roedd pawb yn bresennol yn y tri chyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd presenoldeb aelodau'r Panel fel a ganlyn:

| Aelod o'r Panel | Sawl cyfarfod a fynychwyd | Cyfanswm Posibl |
|------------------------|---------------------------|-----------------|
| Anne Jones (Cadeirydd) | 3 | 3 |
| Tom Frawley | 3 | 3 |
| Jim Martin | 3 | 3 |
| Trevor Coxon | 3 | 3 |
| Ian Williams | 3 | 3 |
| Jane Martin | 3 | 3 |
| Mike Usher | 2 | 2 |
| Rhiannon Ivens | 2 | 2 |

4.2 Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun, ac mae Aelodau'r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ymhob cyfarfod, fel monitro cynnydd o gymharu â'r targedau sydd yn y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol; a'r Adroddiad Monitro Cwynion misol. Mae Rhaglenni Gwaith 2020-2021 a 2021-2022 wedi'u nodi yn Atodiadau B ac C yn y drefn honno.

4.3 Yn dilyn pandemig y Coronafeirws ym mis Mawrth 2020, mae'r Panel wedi gweithio'n effeithiol o bell gan graffu'n fuddiol ar OGCC a'i herio drwy gydol y cyfnod digynsail hwn.

4.4 O ganlyniad i'r adborth gan aelodau ar ddiwedd 2019/20, rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r aelodau ar waith y swyddfa, digwyddiadau allanol a sylw i waith OGCC er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth o faterion rhwng cyfarfodydd y Panel. Hefyd, aeth Cadeirydd y Panel ati i adolygu a diwygio'r dull o osod yr Agenda ar gyfer cyfarfodydd er mwyn gallu trafod materion allweddol yn fanylach. Y materion allweddol a ystyriwyd gan y Panel oedd:

- Craffu ar Adroddiad Blynyddol drafft OGCC ar ei berfformiad yn ystod 2020-2021.
- Cynghori'r Ombwdsmon ar amcangyfrifon ariannol drafft OGCC cyn eu cyflwyno i'r Cynulliad i'w cymeradwyo ym mis Hydref. Cafodd yr Amcangyfrifon eu cymeradwyo wedyn gan y Cynulliad ac ni wnaed unrhyw newid.

- Craffu chwarterol manwl ar berfformiad OGCC yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gan herio a chraffu'n benodol ar ddangosyddion perfformiad allweddol y gwaith achos. Gostyngodd y perfformiad ar waith achos yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Roedd y trefniadau gweithio o bell a chyfrifoldebau gofalu staff, effaith Covid-19 ar allu cyrff cyhoeddus i ymateb i OGCC ynghylch cwynion a gallu'r swyddfa i gael cyngor clinigol amserol ar achosion iechyd yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad OGCC. Darparodd yr aelodau swyddogaeth herio a chraffu i Dîm Rheoli OGCC ar hyn a gynorthwyodd y Tîm Rheoli i gymryd camau i wella perfformiad yn ystod hanner olaf y flwyddyn.
- Ystyriaeth fanwl o Gynllun Cydraddoldeb OGCC a'r Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith. Mynychodd yr holl aelodau hyfforddiant ar Ragfarn Ddiarwybod a gafodd ei ddarparu i staff OGCC hefyd.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Awdurdod Safonau Cwynion a'r rhaglen hyfforddi sy'n cael ei darparu i gyrff cyhoeddus ar ôl cyflwyno Deddf newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019.
- Yn dilyn trafodaeth fanwl, gwnaed awgrymiadau ar ffyrdd o adrodd ar waith y swyddfa yn yr Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol ac ar sut i fynd i'r afael ag unrhyw adolygiad yn y dyfodol o fesur perfformiad OGCC yn erbyn ei Nodau Strategol. Cafodd crynodeb o safbwyntiau ac awgrymiadau'r Panel ei ystyried gan Dîm Rheoli OGCC ym mis Chwefror 2021 a bydd yn helpu i lywio gwaith OGCC yn y dyfodol.
- Adolygu cynllun OGCC ar drefniadau gweithio yn y dyfodol yn sgil y symud tuag at weithio o bell a nod OGCC o ddatblygu fframwaith seiliedig ar "allbynnau" ar gyfer gweithio a mesur perfformiad staff.

5. Adolygiad Blynyddol

- 5.1 Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, mae aelodau'r Panel wedi asesu eu perfformiad unigol a pherfformiad y Panel cyfan ac wedi ystyried a oes ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth glir o awdurdodaeth a gweithrediadau OGCC i ddarparu cyngor a chefnogaeth effeithiol i'r Ombwdsmon ac i gynorthwyo'r Ombwdsmon gyda threfniadau llywodraethu, nodau strategol, amcanion a thargedau. Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael y sgiliau i ddarparu swyddogaeth graffu a herio briodol i'r Ombwdsmon ac i'w staff ac yn asesu'r berthynas waith rhwng aelodau'r Panel, swyddfa'r Ombwdsmon a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys nodi unrhyw anawsterau sy'n bodoli.
- 5.2 Roedd y trafodaethau blynyddol un i un rhwng yr Ombwdsmon a Chadeirydd y Panel, a rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol y Panel a gynhaliwyd o bell, hefyd yn gyfle defnyddiol i gael adborth ar berfformiad aelodau unigol ac effeithiolrwydd y Panel yn ei gyfanrwydd.
- 5.3 Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn perfformio'n dda fel grŵp gyda phrofiad ac arbenigedd amrywiol ac yn darparu her amserol, briodol ac adeiladol i Dîm Rheoli

OGCC. Hefyd, roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod trefniadau gwaith y Panel yn effeithiol ac wedi cynnig swyddogaeth herio a chraffu ddefnyddiol iddo fel corfforaeth undyn.

- 5.4 Cododd yr aelodau'r mater o gyfathrebu rhwng y cyfarfodydd chwarterol ac roeddent yn teimlo y byddai'n fuddiol cael sesiynau briffio rhwng y cyfarfodydd chwarterol. Roedd barn gyffredinol y gellid cynnal y rhain yn eithaf llwyddiannus o bell ac y byddent yn fuddiol i'r aelodau mwy newydd, er enghraifft, i fanteisio ar brofiad cyn ombwdsmon o awdurdodaethau eraill yn ystod y cyfnod pontio hwn o orgyffwrdd aelodaeth.
- 5.5 Yn ystod pandemig Covid-19, yn sgil y trefniadau gweithio o bell, mae'r aelodau wedi colli'r cyfle arferol i gyfarfod a thrafod materion gyda staff o bob rhan o OGCC pan fyddant yn dod i'r swyddfa ar gyfer cyfarfodydd. Byddai'n ddefnyddiol i'r aelodau petai ffyrdd eraill o ymgysylltu â'i gilydd a gyda staff OGCC i ddarparu'r cyfleoedd hyn mewn ffordd wahanol.
- 5.6 Awgrymwyd hefyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar arbenigedd presennol aelodau'r Panel, y dylai OGCC yn ystyried enwebu hyrwyddwyr sector/thema anffurfiol ymysg yr aelodau annibynnol.
- 5.7 O ran perthynas y Panel â staff OGCC, roedd yr aelodau o'r farn eu bod wedi ymgysylltu'n dda ag aelodau'r Panel mewn cyfarfodydd ffurfiol ac mewn trafodaethau anffurfiol a bod staff yn cyflwyno eu hunain gyda phroffesiynoldeb a lefel uchel o wybodaeth ac yn gwneud hynny mewn ffordd dryloyw ac agored. Croesawyd yr arfer o gael amrywiaeth o aelodau staff o bob rhan o'r swyddfa yn cyflwyno adroddiadau i'r Panel.
- 5.8 Gan fod rhai o aelodau'r Panel hefyd yn aelodau o'r PASR, roeddent yn teimlo bod rhywfaint o ddyblygu o ran materion sydd eisoes wedi cael eu trafod yng nghyfarfod y PASR. Er bod esboniad Cadeirydd y Panel o rôl y Panel Ymgynghorol yn gofyn am feddwl yn strategol (yn hytrach nag ystyried materion gweithredol yn fanwl) yng nghyfarfod mis Ionawr 2021 yn ddefnyddiol iawn, awgrymwyd bod mwy o gyfle i amlinellu rolau gwahanol y PASR a'r Panel Ymgynghorol.

6. Ystyriaethau yn y Dyfodol

- 6.1 O ran anghenion yn y dyfodol, yn sgil cael adborth gan yr aelodau, bydd OGCC yn:
- parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau'n rheolaidd am waith y swyddfa;
 - ystyried ffyrdd o feithrin dealltwriaeth o'r sefydliad a sicrhau mwy o ymgysylltu rhwng aelodau'r Panel ac aelodau o staff OGCC y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol;
 - ar y cyd ag aelodau'r Panel a'r PASR, ystyried y ffordd orau o amlinellu priod rolau'r Panel Ymgynghorol a'r PASR er mwyn osgoi dyblygu trafodaethau a materion;
 - trafod gyda'r aelodau yr awgrym o enwebu aelodau unigol fel hyrwyddwr themâu unigol yn ôl eu profiad blaenorol a rôl strategol y Panel.

6.2 Roedd aelodau'r Panel wedi mynychu sesiynau hyfforddi rhithiol ar Ymwybyddiaeth o Seiberddiogelwch a Rhagfarn Ddiarwybod yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn parhau i adolygu hyfforddiant i aelodau'r Panel a nodi unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol. Mae hyfforddiant Llywodraethu ac Atebolrwydd wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2021. Bydd hyn yn cynnwys holl aelodau presennol y Panel ac unrhyw aelodau sydd newydd eu penodi a fydd yn ymgymryd â'u swyddi yn ystod 2021. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle amserol i aelodau ac OGCC bwysu a mesur priod swyddogaethau'r Panel Ymgynghorol a'r PASR.

7. Asesiad Cyffredinol gan Gadeirydd y Panel Ymgynghorol

- 7.1 Afraid dweud bod y flwyddyn wedi bod yn un na welwyd ei thebyg o'r blaen o ran yr heriau a wynebwyd oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021 ddarparu adborth cadarnhaol iawn gan holl Aelodau'r Panel, a oedd yn teimlo bod y Panel Ymgynghorol wedi parhau i fod yn effeithiol yn 2020-2021 wrth gefnogi'r Ombwdsmon. Mae'r aelodau o'r farn eu bod yn parhau i ddarparu'r lefel gywir o her a chefnogaeth i'r Ombwdsmon ac i'w uwch aelodau o staff, yn ogystal â chyflwyno syniadau gwerth chweil o'u priod gefndiroedd. O ystyried eu hamrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol, maent hefyd yn ystyried eu bod yn cyfuno i ddarparu fforwm gwybodus a phrofiadol iawn.
- 7.2 Yn sgil penodi Aelodau newydd i'r Panel ym mis Mehefin 2020, daethpwyd ag arbenigedd ychwanegol i'r Panel. Dylai hyn roi mwy o sefydlogrwydd a pharhad ar gyfer y flwyddyn nesaf wrth i gyfnodau swyddi Aelodau eraill ddod i ben yn 2021. Fodd bynnag, yn ôl y disgwyl, datgelodd yr ymarfer hunanasesu hefyd fod yr aelodau mwy newydd wedi cael llai o gyfle i ymgysylltu ag Aelodau eraill o'r Panel a staff OGCC oherwydd natur rithiol pob cyfarfod, a bod bylchau'n bodoli o hyd yn eu dealltwriaeth o weithdrefnau a chyd-destun OGCC. Cymerir camau yn y flwyddyn i ddod i fynd i'r afael â hyn.
- 7.3 Yn ogystal â'r heriau y mae OGCC eisoes wedi eu hwynebu yn ystod y flwyddyn, mae Aelodau'r Panel yn dal yn ymwybodol iawn bod heriau a newidiadau sylweddol ar y gorwel, yn allanol ac yn fewnol, sy'n debygol o effeithio ar flaenoriaethau a chyfeiriad strategol. Maent yn ymwybodol o'r ffaith bod angen edrych i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae holl aelodau'r Panel wedi ymrwymo i wneud eu gorau glas i barhau â'u rôl o ychwanegu gwerth, craffu'n ddigonol a chynnig cefnogaeth i'r Ombwdsmon a'i staff.

| |
|--|
| Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol Atodiad B - Rhaglen Waith 2020-2021 Atodiad C - Rhaglen Waith 2021-2022 |
|--|

Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol

Statws y Panel Ymgynghorol

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chynghor i'r Ombwdsmon wrth iddo arwain swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a darparu cyfeiriad strategol iddi. Hefyd, mae'r Panel Ymgynghorol hefyd yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion.

Mae'r Panel Ymgynghorol yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar y canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad strategol a chynllunio.

Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.

Aelodaeth

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Ombwdsmon
- Isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon ac a all gynnwys rhywun o swyddfa ombwdsmon arall)
- Hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Gyngorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel. Bydd aelodau eraill y Tîm Rheoli, fel y'u pennir gan yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae dewis gan yr Ombwdsmon i ymestyn y cyfnod hwn am flwyddyn arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol o'r Panel i fod yn Gadeirydd ar sail argymhelliad y Panel Ymgynghorol. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Panel Ymgynghorol, caiff penderfyniad yr Ombwdsmon ei nodi yng nghofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol.

Rôl a chyfrifoldebau'r Panel

Cynorthwyo'r Ombwdsmon i bennu:

- cyfeiriad strategol OGCC, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau;
- polisiau busnes allweddol;
- polisiau a strategaethau cyflogaeth pwysig.

Craffu ar y canlynol a sicrhau:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Gweithredol Blyneddol;
- dyraniad cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno'r amcangyfrifon cyllidebol i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru

Monitro ac adolygu:

- perfformiad a chyflawni gweithredol;
- perfformiad ariannol;
- effeithiolrwydd polisiâu a strategaethau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

Hawliau

Caiff yr Ombwdsmon a'r Panel Ymgynghorol wneud y canlynol:

- cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a helpu'r Panel i gynrychioli'r cymunedau y mae'r Ombwdsmon yn eu gwasanaethu.
- gofyn am gyngor ad hoc arbenigol, ar yr amod bod hynny o fewn y gyllideb.

Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn. Bydd cworwm yn golygu isafswm o dri aelod, ac mae'n rhaid i'r Ombwdsmon fod yn un ohonynt (neu, mewn amgylchiadau eithriadol, dirprwy a enwebir gan yr Ombwdsmon).

Os na fydd Cadeirydd y Panel Ymgynghorol yn gallu dod i gyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cymryd y gadair.

Yn dilyn cymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel, cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon.

Datgan Buddiannau Aelodau Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol yn unol â Pholisi OGCC ar [Ddatgan Buddiannau](#) yng nghyswllt aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Is-bwyllgorau

Mae'n agored i'r Panel Ymgynghorol ffurfio Pwyllgor Taliadau, neu is-bwyllgorau eraill, ar sail ad hoc (hy pan fydd angen).

Gofynion o ran gwybodaeth

Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Panel Ymgynghorol yn cael adroddiad cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Strategol/Gweithredol.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Panel hefyd:

- rhaglen waith flynyddol
- adolygiadau o gynnydd yn erbyn y Strategaeth Cyfathrebu ac Allgymorth
- cynigion ar gyfer unrhyw amcanion newydd 'yn ystod y flwyddyn' nas rhagwelwyd yn wreiddiol pan ddatblygwyd y Cynlluniau Strategol/Gweithredol
- Amcangyfrifon blynyddol drafft a gyflwynir i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru
- cynigion drafft ar gyfer polisiâu busnes/cyflogaeth allweddol newydd neu ddiwygiedig
- y diweddaraf am y berthynas waith â Senedd Cymru
- cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sefydliadol
- Adroddiad Blynyddol OGCC
- adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd y Panel Ymgynghorol ei hun.

Adrodd

- Bydd pob cyfarfod y Panel yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf;
- Bydd y Panel yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Ombwdsmon ar y gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, wedi'i amseru i gefnogi'r dasg o gwblhau Adroddiad Blynyddol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ombwdsmon.

Sylwch: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn, gwaith a rôl y Panel Ymgynghorol yw rhoi cyngor yn unig. Nid oes gan y Panel nac unrhyw aelodau unigol unrhyw rôl na chylch gwaith yng nghyswllt materion gweithredol neu benderfyniadau gwaith achos a wneir gan OGCC.

Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Tîm Rheoli ar 13 Awst 2020;
Panel Ymgynghorol ar 29 Medi 2020
Adolygiad Nesaf: Medi 2021

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2020-2021**

Mehafin 2020

Adroddiad Blynyddol 2019-2020
Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth 2020-2021
Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2021-2022
Cofrestr Buddiannau
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol
Eitem Trafod – Gweledigaeth, Gwerthoedd a Dibenion

Medi 2020

Cyflwyno Amcangyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Eitem Trafod

Ionawr 2021

Y diweddaraf am yr Amcangyfrifon a Gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (llafar)
Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Adroddiad Cyfathrebu ac Allgymorth
Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol (gan gynnwys y Rhaglen Waith) – Adolygiad
Eitem Trafod

Ebrill 2021

Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Panel Ymgynghorol - Adolygiad o Flwyddyn 2019-2020
Cynllun Corfforaethol
Cynllun Gweithredol Drafft 2021-2022
Eitem Trafod

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2021-2022

Gorffennaf 2021

Adroddiad Blynyddol 2020-2021
 Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth 2021-2022
 Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
 Adroddiad Monitro Cwynion
 Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2022-2023
 Cofrestr Buddiannau
 Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol
 Eitem Trafod

Hydref 2021

Cyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru
 Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
 Adroddiad Monitro Cwynion
 Eitem Trafod

Ionawr 2022

Y diweddaraf am yr Amcangyfrifon a Gyflwynir i Senedd Cymru (Ilafar)
 Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
 Adroddiad Monitro Cwynion
 Adroddiad Cyfathrebu ac Allgymorth
 Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol
 Adolygu Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2022-2023
 Eitem Trafod

Ebrill 2022

Cynllun Gweithredol – Adroddiad Cynnydd
 Adroddiad Monitro Cwynion
 Panel Ymgynghorol - Adolygiad o Flwyddyn 2021-2022
 Cynllun Corfforaethol
 Cynllun Gweithredol Drafft 2022-2023
 Eitem Trafod